# Cymeriadau Difyr

| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Mesur hyd – tal, byr, canolig.** |
| Adnoddau: | • Set o rubanau/gwellt (yfed) o wahanol hyd.<br>• Blociau e.e. unifix/megablox/duplo.<br>• Clai.<br><br>**<u>Adnodd digidol:</u>**<br>*Gweler y ddogfen 'Mesur – cyflwyniad'* lle mae lluniau o bobl ac anifeiliaid o amrywiol daldra (tal/byr/canolig). |
| Camau: | **<u>Cam 1: Trafod yr adnodd digidol</u>**<br>Trafod y lluniau ar y sgrin:<br>• Beth welwch chi?<br>• Sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol?<br><br>**<u>Cam 2: Gweithgaredd (adnodd digidol)</u>**<br>Y dysgwyr yn trafod ble mae'r bobl/anifeiliaid ar y sgriniau yn ffitio – tal/byr/canolig.<br><br>**<u>Cam 3: Taldra'r dysgwyr</u>**<br>Dewis grŵp o ddysgwyr/y dysgwyr i gyd a chyd-weithio i'w trefnu o'r talaf i'r byrraf. Ymarfer brawddegau llafar e.e ______ yw'r talaf; mae _______ yn dalach na _______ ayyb.<br><br>**<u>Cam 4: Yn y dosbarth ar y twba tyff</u>**<br>Trefnu gwellt/rhubanau o'r hiraf/talaf i'r byrraf, neu o'r byrraf i'r talaf.<br><br>**<u>Cam 5: Didoli</u>**<br>Set o deganau neu dedis o amrywiol daldra. Y dysgwyr i'w didoli i grwpiau yn ôl eu taldra – hŵp **Tal, Byr, Canolig.**<br>Neu eu trefnu o'r talaf i'r byrraf ayyb.<br>Cyfrif sawl un sydd ym mhob grŵp.<br><br>**<u>Cam 6: Clai</u>**<br>Creu nadroedd hir/canolig/byr gan ddefnyddio'r clai.<br><br>**<u>Cam 7: Ardal Allanol</u>**<br>Defnyddio blociau mawr – adeiladu tyrrau sy'n dal/canolig/byr. Cyfle i gofnodi sawl bloc sydd ym mhob tŵr. Defnyddio cardiau fflach rhifau/numicon i nodi taldra pob tŵr.<br>**<u>Neu</u>** defnyddiwch gardiau her:<br>e.e. Adeiladwch dŵr sy'n 10 bloc o daldra ayyb. |



| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 8: Mynd am dro</u>**<br>Chwilio am bethau tal, byr a chanolig yn yr ardal allanol, e.e. planhigion a choed, dail, pyst, offer ar yr iard, ceir a cherbydau ayyb. |
| Cwestiynu: | • Pwy sydd dalaf?<br>• Sawl un sydd yn y grŵp byr?<br>• Oes rhai yn ganolig?<br>• Fedrwch chi weld rhywbeth sydd yn dal/byr/canolig?<br>• Ble mae'r un byrraf?<br>• Fedri di ei wneud yn dalach/fyrrach? |
| Beth nesaf? | Y dysgwyr yn mesur taldra gan ddefnyddio blociau, e.e. mesur hyd pob rhuban/gwelltyn gyda chiwbiau unifix, mesur taldra dodrefn yn y dosbarth gyda Megablox.<br>Amcangyfrif taldra'r gwrthrychau cyn mesur a chofnodi'r mesuriad mewn tabl. |

